

Amdani! Conwy Volunteer FAQs

Q: Do I have to have experience to get involved?

A: No, you don't need any experience. You just need to be open to trying out new opportunities!

Q: Who will I be volunteering for?

A: Although you will be volunteering in different places you will be an Amdani! Conwy volunteer.

Q: Will this cost me anything?

A: Amdani! Conwy will reimburse out of pocket expenses.

Q: What sort of volunteer opportunities will there be?

A: The opportunities will consist of museums, arts, music, galleries, libraries, community events, opportunities within community settings and within different projects.

Q: Will I be trained to do my volunteer opportunity?

A: All volunteers will undertake level 1 training and there will be an option for level 2 and 3 training for volunteers to participate in.

Q: Do I have to have a DBS?

A: We will only ever ask for a DBS if it is necessary for the volunteering role.

Q: Do I have to commit to volunteering every week?

A: Absolutely not! Amdani Conwy! Is completely flexible to fit around your lifestyle and you have the option to sign up to volunteer shifts that you want to do.

Q: How do I know if the opportunity is accessible?

A: The information will be posted with the opportunity. You can also talk to our Access and Inclusion Officer, David.

Amdani! Conwy: Cwestiynau Cyffredin gan Wirfoddolwyr

C: A oes rhaid i mi gael profiad i gymryd rhan?

A: Nag oes, nid oes rhaid i chi gael unrhyw brofiad. Y cwbl rydym yn ei ofyn ydi eich bod yn barod i roi cynnig ar gyfleoedd newydd!

C: Ar gyfer pwy fyddaf yn gwirfoddoli?

A: Er y byddwch yn gwirfoddoli mewn gwahanol lefydd, byddwch yn wirfoddolwr Amdani! Conwy.

C: A fydd rhaid i mi dalu am unrhyw beth?

A: Bydd Amdani! Conwy'n ad-dalu unrhyw dreuliau i chi.

C: Pa fath o gyfleoedd gwirfoddol fydd ar gael?

A: Bydd y cyfleoedd yn cynnwys amgueddfeydd, celfyddydau, cerddoriaeth, orielau, llyfrgelloedd, digwyddiadau cymunedol, cyfleoedd o fewn lleoliadau cymunedol ac o fewn gwahanol brosiectau.

C: A fyddaf yn derbyn hyfforddiant cyn gwirfoddoli?

A: Bydd pob gwirfoddolwr yn cwblhau hyfforddiant lefel 1 a bydd gwirfoddolwyr hefyd yn cael dewis i gwblhau hyfforddiant lefel 2 a 3

C: A oes rhaid i mi gael tystysgrif GDG?

A: Byddwn ond yn gofyn i chi gael tystysgrif GDG os yw hynny'n hanfodol ar gyfer y rôl wirfoddoli.

C: A oes rhaid i mi ymrwymo i wirfoddoli bob wythnos?

A: Dim o gwbl! Mae Amdani Conwy! yn hollol hyblyg ac yn cyd-fynd â'ch ffordd o fyw, byddwch yn cael dewis i gofrestru ar gyfer y shifftiau gwirfoddol yr hoffech chi eu gwneud.

C: Sut fyddaf yn gwybod bod y cyfle'n hygyrch?

A: Bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu am y cyfle. Gallwch hefyd siarad â'n Swyddog Mynediad a Chynhwysiant, David.